**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD AM Y CYNNIG I WELLA DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU CYFRWNG CYMRAEG YN RHONDDA CYNON TAF**

Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2022, penderfynodd Cabinet y Cyngor i gymeradwyo'r cynnig uchod i'w weithredu o Fedi 2022.

Ddaeth yr un gwrthwynebiad i law yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol ac o'r herwydd, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cafodd adroddiad gwrthwynebiadau ei lunio. Mae modd gweld copi o'r adroddiad ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r ddolen isod. Mae modd cael copïau papur ar gais.

Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad yma i'w weithredu eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang yn gynharach eleni. Yn ogystal â'r rhesymeg gadarn, dylid nodi yr oedd cefnogaeth sylweddol i'r prosiect yma yn ystod y cam ymgynghori.

Wrth ddod i'w benderfyniad terfynol, daeth y Cabinet felly i'r casgliad bod y buddion yn sgil cyflawni'r cynnig yma'n gadarnhaol dros ben. Bydd y cynnig yn cyflawni'r canlynol:

- Sefydlu darpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfnod allweddol 3/4 cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol o fis Medi 2022 yn Ysgol Garth Olwg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswyddau statudol newydd o ran darparu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddwyieithog.
- Ar hyn o bryd does dim darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu gan yr awdurdod lleol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dymuno cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cynnig yma'n unioni hynny.

Yn seiliedig ar y deilliannau yma, penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo gweithredu'r cynnig yma.

Yn gywir,

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**